# Cadeirydd yr Arholwyr,
# TGAU (CBAC) Technoleg ddigidol
## Proffil y Rôl a Ffurflen Gais

## PROFFIL Y RÔL

**Diben:**

Mae CBAC am recriwtio Cadeirydd yr Arholwyr. Yr ymgeisydd llwyddiannus fydd yn gyfrifol am asesu TGAU Lefel Mynediad yng Nghymru a Lloegr.

Cadeirydd yr Arholwyr sy'n gyfrifol am gynnal safonau'r pwnc ar draws y fanyleb o flwyddyn i flwyddyn. Cyfrifoldeb Cadeirydd yr Arholwyr hefyd yw monitro safonau'r Uwch Arholwyr.

**Cyfrifoldebau**

- cynorthwyo staff CBAC i gynnal safonau pwnc penodol ac ar draws manylebau gwahanol, lle y bo'n briodol, o gyfres i gyfres
- cadeirio amrywiol gyfarfodydd gan gynnwys y Pwyllgor Gwerthuso Papurau Cwestiynau (PGPC), cynadleddau arholwyr/safonwyr a chyfarfodydd Dyfarnu
- sicrhau bod y papur(au) cwestiynau a'r cynlluniau marcio'n bodloni gofynion y meini prawf asesu fel y nodir hwy yn y fanyleb a'u bod o safon gymharol a gynhelir o flwyddyn i flwyddyn
- argymell ffiniau gradd i bob gradd ym mhob un o'r cymwysterau ar ddiwedd y broses ddyfarnu
- paratoi adroddiadau ar y prosesau, yn ôl y gofyn
- cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill y gall CBAC wneud cais rhesymol amdanynt.

Bydd angen i Gadeirydd yr Arholwyr fod ar gael am o leiaf **bum** niwrnod y flwyddyn a allai fod yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae tâl rhyddhau ar gael i ganolfannau. Bydd hyn yn galluogi i ddeiliad y swydd fynychu PGPC, mynychu'r gynhadledd arholiadau/safoni a'r cynadleddau dyfarnu.

**Profiad/cymwysterau angenrheidiol**

- gradd yn y pwnc sy'n benodol i'r cymhwyster hwn
- profiad asesu ac addysgu perthnasol
- profiad rheoli pobl
- y gallu i weithio'n dda dan bwysau

I gael gwybod mwy, cysylltwch â gareth.gillard@wjec.co.uk . Y dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau yw **16 Medi 2024.**

**Sut i wneud cais**:
Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac nad ydych yn gweithio i CBAC ar hyn o bryd, ewch i https://appointees.wjec.co.uk a chlicio 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.
Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodiadau a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Cadeirydd TGAU (CBAC) Technoleg ddigidol** ar y tab 'maes pwnc', a llenwch feysydd eraill y cais.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth pellach, cysylltwch â:-

| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds<br>rob.reynolds@wjec.co.uk<br>02920 265 050 | Neu | Emily Safadi<br>emily.safadi@wjec.co.uk<br>02920 265 305 |